# Bwyd i Feddwl

Diweddariad COVID-19 gan Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru





**7 Mai 2020**



"Mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru'n bodoli i hyrwyddo bwyd a diod yng Nghymru, ac mae'r argyfwng digynsail cyfredol yn sgil Covid-19 wedi dangos bod y rôl honno'n fwy hanfodol nawr nag erioed. Nod y diweddariad yma gan y Bwrdd yw cyfeirio busnesau at y wybodaeth sydd ei hangen arnynt nawr ar ffurf gryno.

Wedi rhagori ar darged y diwydiant o ran twf, a bennwyd yng nghynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-2020, sef tyfu o £5bn i £7bn, mae hi'n hanfodol ein bod ni'n amddiffyn y llwyddiant hwn trwy gydol y pandemig, a'n bod ni'n dechrau ystyried y sialensiau a'r cyfleoedd sydd wedi dod i'n rhan o ganlyniad i'r profiad digynsail yma.

Bydd yna sawl agwedd o'r diwydiant i'w hystyried yn y dyfodol, gan gynnwys rôl cyllid a thechnoleg, pa farchnadoedd i'w targedu, ac elwa ar unrhyw ddulliau newydd buddiol o weithio sydd wedi deillio o'r argyfwng.

Ond am y tro, rydyn ni'n cydnabod bod pethau'n anodd dros ben i lawer iawn o fusnesau yn y sector. Rwy'n eich annog chi i estyn allan at y bwrdd a rhannu eich pryderon a'ch dealltwriaeth chi o'r sefyllfa sydd ohoni fel y gallwn ddarparu'r atebion gorau posibl ar gyfer eich busnes a'r sector ar led. Ein cenhadaeth ni, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yw cydweithio'n agos â busnesau bwyd a diod er mwyn sicrhau bod gennym ddiwydiant cynaliadwy, gwydn a phroffidiol wrth edrych tua'r dyfodol.

Hoffem ddiolch i chi hefyd am roi o'ch amser i ddarllen ein newyddlen. Gobeithio bod y newyddlen hon yn darparu'r wybodaeth, yr adnoddau a'r cymorth rydych chi'n chwilio amdanynt yn ystod y cyfnod hwn."

**Andy Richardson, Cadeirydd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru**

---

## Camau allweddol o'r wythnos

*rhai o'r gweithredoedd ond nid pob un

- Mae'r Bwrdd wrthi'n paratoi dogfen o dystiolaeth allweddol sy'n amlinellu'r sialensiau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod diwydiant bwyd a diod Cymru'n flaenoriaeth mewn trafodaethau ynghylch cynllunio adferiad Cymru.

- Trwy gydol yr wythnos, rydyn ni wedi bod yn cynnal galwadau cynadledda dyddiol gydag aelodau'r Bwrdd a chydweithwyr uwch yn Llywodraeth Cymru er mwyn tynnu sylw at feysydd allweddol o'r diwydiant sydd wedi cael eu taro gan Covid-19, a'u trafod. Rydyn ni wedi gwahodd arbenigwyr allweddol i'r cyfarfodydd hyn i fanteisio ar eu gwybodaeth am y materion hyn hefyd.

- Rydyn ni wedi bod yn gweithio gydag Arloesi Bwyd Cymru i gyhoeddi 22 rhestr gyfeirio a nodyn canllaw i helpu busnesau i baratoi ar gyfer llacio'r cyfyngiadau ar symud a dychwelyd i gynhyrchu.

- Rydyn ni wedi darparu cyngor ac arweiniad i'r llywodraeth am ddarparu blychau bwyd ar gyfer grwpiau bregus ac am eu cynnwys, gan gynnwys gwaith am newid i'r rhai sydd ag anghenion a gofynion ychwanegol o ran eu diet.

- Rydyn ni wedi bod yn gweithio gyda'r llywodraeth er mwyn cadarnhau y caiff yr holl weithwyr bwyd a diod eu cynnwys yn y rhestr o weithwyr critigol, ac y cânt eu cynnwys yng nghylchoedd cynnar y profion torfol ar gyfer Covid-19 yng Nghymru.

- Cafodd y Bwrdd gyfarfod â Hybu Cig Cymru er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar y diwydiant cig eidion, cig oen a chig moch.

- Rydyn ni wedi codi'r broblem fod microfusnesau'n disgyn y tu hwnt i gynlluniau cymorth y llywodraeth, ac wedi tynnu sylw at bryderon y busnesau hyn am gymryd cyllid benthyg gan lywodraeth Cymru a llywodraeth San Steffan.

- Mae'r Bwrdd yn gweithio mewn partneriaeth â Lantra Cymru i gynorthwyo ei Gwasanaeth Paru Sgiliau ar gyfer busnesau amaeth a thir ochr yn ochr â'n Grŵp Cyfnewid Gweithluoedd ar Facebook.

- O ddydd i ddydd, rydyn ni'n cydgysylltu â'r Ffederasiwn Bwyd a Diod a sefydliadau partner eraill er mwyn rhannu syniadau a phenderfynu ar yr atebion gorau i'r sector bwyd a diod ar draws Prydain.

- Rydyn ni wedi parhau i rannu dolenni at wybodaeth, cymorth a phecynnau cymorth trwy Twitter a LinkedIn, ac yn helpu gyda phecynnau'r cyfryngau cymdeithasol.

---

## Prif straeon newyddion yr wythnos


- Lesley Griffiths yn trafod pryderon Covid o gylch Cyflenwadau bwyd a PPE
- Cogydd Cymreig yn dathlu Wythnos Cig Eidion Prydain trwy 'ddathlu stêc'
- Gordon Brown i gynorthwyo adferiad Cymru yn sgil y pandemig
- Nawr gallwch anfon Pecyn Bwyd a Diod Cymreig at deulu a ffrindiau

---

## Cymorth Covid-19

Cliciwch i gael gwybodaeth am yr adnoddau sydd ar gael





---

## Lleisiau o'r diwydiant

Gyda Mark Brace, Rheolwr Gyfarwyddwr, Brace's Bakery






Busnes teuluol y bedwaredd genhedlaeth wrth galon de Cymru yw Brace's Bakery. Mae'r cwmni wedi bod yn pobi ac yn cyflenwi bara ers 1902. Ni yw'r cyflenwyr bara brand mwyaf yn ne Cymru a rhannau o dde-orllewin Lloegr. Ochr yn ochr â'n cynnyrch brand ein hunain, rydyn ni'n cynhyrchu cynhyrchion bara label yr archfarchnadoedd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, ac yn cyflenwi'r sector gweini bwyd yn genedlaethol ac yn rhyngwladol hefyd.

Yn ddigon dealladwy, ers dechrau'r argyfwng Covid-19, mae'r farchnad gweini ac allforio bwyd wedi dod i ben. Mae archebion i allforio cynnyrch y popty wedi cael eu disodli gan alw uwch gan adwerthwyr bwyd yn ein rhanbarth, ac rydyn ni wedi bod yn gwerthu mwy na miliwn o unedau'r wythnos hyd yn hyn. Rydyn ni wedi bod yn cynorthwyo darparwyr lleol blychau bwyd ar gyfer grwpiau bregus hefyd, ac wedi rhoi cynnyrch yn rhodd i nifer o ysbytai. Mae'r rhain wedi cael eu darparu gan ein ddau bopty yn ne Cymru, ym Mhen-y-Fan ac yng Nghroespenmaen, Crymlyn.

Rydyn ni wedi gorfod newid sawl rhan o'n gwaith yng ngoleuni'r pandemig. Gan weithredu ar sail cyngor y llywodraeth a'n cymdeithas fasnach, Ffederasiwn y Pobyddion, rydyn ni wedi rhoi gweithdrefnau ar waith o fewn y busnes i sicrhau diogelwch dros 250 o gyflogeion Brace's. Yn eu plith mae cadw pellter cymdeithasol, darparu cyfarpar amddiffynnol, trefniadau glanhau llym ar draws ein holl weithrediadau, a newid arferion gwaith, fel darwahanu patrymau sifftiau. Mae'r busnes wedi rhoi mesurau pellach ar waith i ddiogelu ein cyflenwadau o ddeunyddiau crai, a gwnaed newidiadau i amrywiaeth y cynnyrch gan leihau'r nifer o wahanol gynhyrchion sydd ar gael er mwyn canolbwyntio ar fwyafu ein capasiti i ddarparu allbwn cyfunol o dros 12,000 torth yr awr. Rydyn ni'n dechrau ailgyflwyno amrywiaeth estynedig o gynnyrch nawr.

Ein blaenoriaeth bennaf yw cynnal ein gweithrediadau busnes a diwallu'r galw gan y farchnad wrth gymryd pob cam posibl i gynnal arferion gwaith diogel ar gyfer ein holl gydweithwyr ffyddlon yn Brace's, sydd wedi cael taliad bonws am eu hymroddiad dros y mis diwethaf. Trwy gydol y cyfnod hwn, nid oes mwy nag uchafswm o 10 y cant wedi gorfod hunan-ynysu.

Hoffem ddiolch i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU am gefnogi ein diwydiant a newid y rheolau a'r rheoliadau er mwyn caniatáu i fusnesau a'r diwydiant barhau i fodloni'r galw digynsail yma a chynorthwyo'r bobl hynny sydd mewn angen.

---

Cadwch mewn cysylltiad am ddiweddariadau

Ymunwch â'n Grŵp Facebook i rannu gweithluoedd

Cysylltwch â ni: Chair.FDWIB@gov.wales